

Cyngor Cymuned Y Bontnewydd  
COFNODION CYFARFOD MISOL  
7 Medi 2017 7.00 yh Y Ganolfan, Y Bontnewydd

**PRESENNOL :**

**Cynghorwyr:** Dafydd Iwan, Gwyneth Thomas, Emyr Williams, Ifor Dylan Williams, Math Williams, Geraint Strello, Peter Garlick, Cadi Sion

**Cadeirio:** Erddyn Davies

**Clerc:** Huw Llwyd Rowlands

**1. YMDDIHEURIADAU**

Mirain Llwyd Owen

**2. DATGAN DIDDORDEB/BUDDIANT PERSONOL**

Dim

**3. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cadarnhawyd cofnodion Gorffennaf 2017. Cynnig: Dafydd Iwan  
Eilio: Math Williams

**4. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

**4.1 Arwydd Rhes Magdalen**

Mae'r arwydd bellach wedi cael ei osod.

**4.2 Cyflwr Y Ganolfan a Chyfrifon Llawn**

Darparodd Dafydd Iwan gopi o gyfrifon Y Ganolfan. Maent yn dangos incwm yn fwy na gwariant ar gyfer 2016/17. Mae llawr newydd wedi cael ei osod yn y gegin. Serch hynny rhaid cofio fod angen gwario ar y gegin yn gyffredinol a'r system wresogi'n fuan.

Mae Pwyllgor Y Ganolfan wedi penderfynu cynnal cyfarfod er mwyn ceisio cael gwaed newydd ar Bwyllgor Y Ganolfan. Trefnwyd y cyfarfod ar gyfer 19 Medi.

**4.3 Tacluso Llefydd Parcio Lôn Groes**

Nid yw'r gwaith yma wedi ei wneud. Mae angen glanhau'r ffordd uwchlaw Tyddyn Parthle hefyd. Y Clerc i ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i'w hatgoffa o'r angen i wneud y gwaith.

**4.4 Sbwriel o Lorïau Ailgylchu**

Mae'n amheus os yw'r sefyllfa wedi gwella llawer, ond fe gytunwyd i fonitro'r sefyllfa.

#### **4.5 Enwau Ffyrdd Llanfaglan**

Nododd y Cynghorydd Ifor Williams fod nifer o enwau ffyrdd yn ardal Llanfaglan yn cael eu defnyddio'n anghywir gan Gyngor Gwynedd a gan yr OS ar eu mapiau.

Gofynnwyd i'r Clerc ddanfôn copi o fap a baratowyd yn dangos yr enwau cywir at yr OS, gan ofyn iddynt ystyried diwgio'r enwau sydd ar eu mapiau cyfredol.

#### **4.6 Llysiâu'r Cythraul Bontnewydd**

Cafwyd gohebiaeth gan Gyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Gwynedd. Mae'r ddau yn cytuno os oes ffordd yn rhedeg yn gyfochrog â gwely afon, mai perchennog y ffordd sydd yn gyfrifol am y darn tir o ochr y ffordd hyd at ganol gwely'r afon.

Fodd bynnag, nid yw'r naill gorff na'r llall yn derbyn cyfrifoldeb, ac er bod Cyngor Gwynedd yn cydnabod mai y nhw sydd yn cynnal a chadw'r ffordd y tu cefn i Dafarn y Newborough, ac o Fontnewydd i Lanfaglan o dan bont Rheilffordd Eryri, nid y nhw sydd berchen y ffordd.

Dan yr amgylchiadau fe gytunwyd mai peidio ag ymyrryd efo llysiâu'r cythraul fyddai'r peth gorau i'w wneud am y tro. Mae angen gwasanaeth arbenigwr i'w ddifa, a gan nad yw'n achosi problem ar hyn o bryd cytunwyd mai gwell fyddai peidio ag ymyrryd.

### **5. MATERION ARIANNOL**

#### **5.1 Cyflog a Chostau Clerc Gorffennaf ac Awst 2017**

£208.18 - £41.60 treth incwm = £166.58 + costau swyddfa £45.00 y mis

**Cyfanswm Gros** £253.18 y mis

**Cyfanswm Net** £211.58 y mis

#### **5.2 Costau postio** £2.24

#### **5.3 PWLB-** taliad allan 12 Medi £406.35

#### **5.4 Praesept** – taliad 2 2017/18, 4 Medi £7,750.00

#### **5.5 Balans yn y Banc 7 Medi 2017-** £20,699.44

#### **5.6 Cyngor Gwynedd Costau Etholiadol** - £247.00

Penderfynwyd peidio â thalu hwn am y tro hyd nes y ceir esboniad pellach gan Gyngor Gwynedd am y tâl.

#### **5.7 Adnewyddu Yswiriant 2018/19** - £2,210.65 Zurich. Gofynnwyd i'r Clerc weld a fedrid

gael pris mwy cystadleuol

## **6 CYNLLUNIO A MATERION CYFREITHIOL ERAILL**

Dim

## **7. GOHEBIAETH**

- NALC – diwygiadau i ddeddfwriaeth amddiffyn data
- Cod Trefniadaeth Ysgolion Diwygiedig

Derbyniwyd yr uchod i gyd er gwybodaeth.

## **8. MATERION ERAILL**

### **8.1 Cynllun Datblygu ar y Cyd Gwynedd a Môn**

Nododd y Clerc fod Cynllun Datblygu ar y Cyd, Gwynedd a Môn wedi cael ei gymeradwyo gan Gyngor Gwynedd a Chyngor Môn.

Pwysleisodd y Cyngorydd Dafydd Iwan y canlynol:-

- Nodi ei bod hi'n bosibl adolygu'r cynllun
- Bod angen cadw a chynnal diddordeb yn sut mae'r cynllun yn cael ei weithredu
- Bod angen edrych ar fwy na niferoedd y tai, ond hefyd ar y math o dai y bwriedir eu hadeiladu a'u lleoliad.

### **8.2 Gwasanaeth Cymraeg CThEM Porthmadog**

Mae pendefyniad wedi ei wneud i beidio â symud y gwasanaeth Cymraeg CThEM o Borthmadog i Gaerdydd. Bydd y swyddfa ym Mhorthmadog yn symud i Thedford House sydd yng nghanol tref Porthmadog.

### **8.3 Offer Casglu Sbwriel a Chamerau**

Diolchodd y Cyngorydd Ifor Williams i'r Cyngorydd Peter Garlick am ei waith yn casglu sbwriel yn yr ardal

Awgrymodd y Cyngorydd Ifor Dylan Williams y byddai'n syniad da gosod offer casglu sbwriel a camerau mewn gwahanol lefydd yn y gymuned. Byddai felly'n bosibl i unigolion gynorthwyo i gasglu sbwriel a byddai'r camerau yn debygol o leihau achosion tipio slei bach.

Cytunwyd fod y syniad yn un teilwng, ond byddai'n anodd ei weithredu'n ymarferol. Byddai risg y byddai'r offer yn cael ei ddwyn neu ei fandaleiddio. Yn ogystal, byddai angen cysylltiad pwer ar gyfer unrhyw gamera cylch cyfyng, a byddai hynny'n anodd iawn mewn ardal wledig.

Penderfynwyd y byddai'n syniad da i swyddog o Gyngor Gwynedd ddod i'r cyfarfod nesaf er mwyn egluro sut yn union mae system ailgylchu Cyngor Gwynedd yn gweithio – beth yn union sy'n disgwydd i'r deunydd ail-gylchu wedi i'r preswylwr ei roi yn y bocsus glas.

#### **8.4 Problemau Traffig Llanfaglan**

Nid oes cyfyngiad cyflymder ar hyd y rhan fwyaf o Lôn Pant ac mae ceir yn goryrru arni, er eu bod o bosibl yn gyrru o fewn yr uchafswm cyflymder o 60 mya.

Penderfynwyd ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn gofyn am gyfyngiad cyflymder o 30mya o gartref Bryn Seion hyd at Saron.

Yn ogystal, mae ceir yn goryrru trwy Lanfaglan ac yn torri'r uchafswm cyflymder o 30mya. Er bod cerbyd Gan Bwyll wedi ei leoli yn Saron yn ddiweddar dydy'r cerbyd ddim wedi ymweld â Llanfaglan.

Penderfynwyd ysgrifennu at Gan Bwyll yn gofyn iddynt leoli fan yn Llanfaglan, yn enwedig yn ystod yr oriau brig pan mae traffig yn goryrru drwy'r pentref.

Soniodd y Cyngohorydd Peter Garlick am gynllun ble mae preswylwyr lleol yn cael hyfforddiant i fesut cyflymder y traffig gyda gwn cyflymder. Does gan y mesuriadau ddim effaith cyfreithlon, ond bydd yr Heddlu yn danfon llythyrau at berchnogion unrhyw gerbyd sydd yn cael ei ddal gan y gwirfoddolwyr yn torri'r cyfyngiad cyflymder.

Mae'r Cyngohorydd Peter Garlick yn disgwyl mwy o wybodaeth am y fenter yn fuan.

#### **8.6 Diffibrileiddiwr.**

Adroddodd y Cyngohorydd Peter Garlick ei fod yn ymchwilio i gael diffibrileiddiwr i Fontnewydd. Bydd y diffibrileiddiwr angen cyflenwad trydan a bydd angen ei leoli mewn safle hygyrch yn y pentref. Darperir mwy o fanylion yn fuan.

#### **8.7 Ffordd Osgoi Bontnewydd**

Gofynnodd y Cyngohorydd Geraint Strello beth yw bwriad Llywodraeth Cymru o ran yr eiddo a adnabyddir fel Cae Gwynedd, sydd wedi ei leoli rhwng Llanfaglan a Bontnewydd. Mae'r ty yn wag ac mae'n ymddangos fod Llywodraeth Cymru wedi ei brynu gan ei fod yn agos iawn i lwybr y ffordd osgoi arfaethedig.

Cytunwyd fod y Clerc yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am eu bwriad o ran Cae Gwynedd.

### **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Hydref 5 am 7 yh Y Ganolfan, Bontnewydd



